15 Gorffennaf 2025

Annwyl,

**Cais am Wybodaeth – ATISN 24820**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 17 Mehefin 2025. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Darparwch gopïau o'r holl ohebiaeth ysgrifenedig rhwng Llywodraeth Cymru a Maes Awyr Caerdydd ynghylch darparu tudalen we ddwyieithog gan y Maes Awyr yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

**Ein Hymateb:**

Gweler **Atodiad A** isod am yr wybodaeth a ryddhawyd o dan y cais hwn. Mae'r wybodaeth wedi cael ei golygu i guddio manylion personol, yn ôl yr angen.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am y cais hwn, mae croeso ichi gysylltu â mi yn y cyfeiriad isod.  Cofiwch nodi'r cyfeirnod uchod mewn unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol.

Mae eich cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch – eich enw a'ch cyfeiriad er enghraifft. Llywodraeth Cymru fydd y prosesydd data ar gyfer yr wybodaeth hon ac, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, bydd yn cael ei phrosesu er mwyn inni allu cyflawni ein gorchwyl gyhoeddus a bodloni ein hymrwymiadau cyfreithiol o dan y Ddeddf i roi ateb ichi. Yr unig ddefnydd a wnawn o'r wybodaeth bersonol hon fydd er mwyn ymdrin â'ch cais ac unrhyw faterion sy'n codi yn ei sgil. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol ac unrhyw wybodaeth arall yn ymwneud â'ch cais am dair blynedd ar ôl y dyddiad y caiff eich cais ei gau'n derfynol.  Wedyn byddwn yn cael gwared ar eich gwybodaeth bersonol mewn modd diogel.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych yr hawliau canlynol:

- i gael gwybod pa ddata personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru a chael gafael arno
- i ofyn inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i ofyn am i'ch data gael ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd y data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Gwefan: www.cy.ico.org.uk

Rhestrir unrhyw wybodaeth a ryddheir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yng Nghofnod Datgeliadau Llywodraeth Cymru (yn https://www.llyw.cymru/ymatebion-rhyddid-gwybodaeth).

Yn gywir